**Pwyllgor Rhanbarthol Gogledd Cymru NWR 04-99(min)**

**Dyddiad:** Dydd Gwener 10 Rhagfyr 1999

**Amser:** 10.00am tan 1.00pm

**Lleoliad:** Prif Siambr, Swyddfeydd Cyngor Gwynedd, Stryd-y-Jel, Caernarfon

**Presennol**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Conwy |
| Alison Halford | Delyn |
| Christine Humphreys | Gogledd Cymru |
| John Marek | Wrecsam |
| Tom Middlehurst | Alyn a Glannau Dyfrdwy |
| Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| Peter Rogers | Gogledd Cymru |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol*

*Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru*

| | |
|---|---|
| Phillip Quinn | Prif Swyddog Tân |
| Peter Coles | Dirprwy Brif Swyddog Tân |

*Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru*

| | |
|---|---|
| Cyng Alun Ffred Jones | Arweinydd, Cyngor Gwynedd |
| Geraint Jones | Prif Weithredwr, Cyngor Gwynedd |

| | |
|---|---|
| Cyng A Aldridge | Arweinydd, Cyngor Sir Fflint |
| Philip McGreevy | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Fflint |
| Cyng Sue Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Derek Barker - | Prif Weithredwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Elwyn Edwards | Cadeirydd, Cyngor Sir Ddinbych |
| Huw V Thomas | Prif Weithredwr, Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng J Woodrow | Dirprwy Arweinydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Derek Griffin | Prif Weithredwr – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng O G Jones | Dirpwy Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Geraint Edwards | Rheolwr-Gyfarwyddwr, Cyngor Sir Ynys Môn |
| *Ysgrifenyddiaeth* | |
| Adrian Crompton | Clerc |
| Howell Rees | Dirprwy Glerc |

**Cyflwyniad ac ymddiheuriadau**

Diolchodd y Cadeirydd i Gyngor Gwynedd am eu croeso a dywedodd fod ymddiheuriadau wedi'u derbyn oddi wrth Dafydd Elis Thomas, Ann Jones, Rod Richards, Karen Sinclair, Dafydd Wigley ac Ieuan Wyn Jones.

**Eitem 1: Cyflwyniad gan Awdurdod Tân Gogledd Cymru gyda thrafodaeth yn dilyn**

Rhoddodd y Prif Swyddog Tân, Phil Quinn, gyflwyniad cryno. Yna, rhoddodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân, Peter Coles, gyflwyniad a oedd yn cynnwys hanes a strwythur Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, ychydig o ystadegau sylfaenol, cyllideb, pensiynau, gwerth gorau, staff wrth gefn, cyfleoedd cyfartal, hyfforddiant a'r strategaeth gyfathrebu. Y themâu allweddol a godwyd oedd cyllido'r gwasanaeth, cost pensiynau yn y pump i ddeng mlynedd nesaf a chadw'r diffoddwyr tân wrth gefn.

Agorodd y Cadeirydd y sesiwn drafod wedyn a gofynwyd y cwestiynau ac fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- *Roedd galwadau diachos wedi'u nodi fel maes lle'r oedd pryder. Roedd dwywaith cymaint o*

*ddiffygion yn y system na galwadau maleisus. Beth oedd yn cael ei wneud i ostwng y lefelau hyn?* Nododd y Pwyllgor mai canlyniad esgeulustod a chynnal a chadw'r larymau awtomatig yn aneffeithiol oedd y diffygion system a bod ymdrechion yn cael eu gwneud i annog perchnogion i ymdrin â hyn. Roedd y lefel uchel o alwadau maleisus yn broblem hefyd, yn enwedig gan blant ysgol. Lle'r oedd ffoniau, neu flychau ffôn, yn cael eu clustnodi fel rhai oedd yn gyfrifol am nifer fawr o alwadau maleisus, roedd nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn i alwyr i ganfod a oedd yr alwad yn ddilys. Os nad oedd y galwr yn ateb yn briodol, neu ddim o gwbl, efallai na fyddai cymorth yn cael ei anfon. Roedd hon yn fwy o broblem mewn gorsafoedd bach, un cerbyd, oherwydd pe bai cymorth yn cael ei anfon at alwad faleisus, nid oedd cymorth wrth gefn ar gyfer argyfwng gwirioneddol. Fel rhan o'r rhaglen Diogelwch Tân Cymunedol roedd y gwasanaeth yn ceisio addysgu plant ysgol am beryglon galwadau maleisus.

- *A oedd gan y Gwasanaeth gynllun iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo?* Nododd y Pwyllgor bod cynllun wedi'i gymeradwyo a bod ymgynghori'n digwydd ar hyn o bryd. Y bwriad oedd i bob aelod o staff a oedd mewn swyddi allweddol a rheoli, fel staff derbynfa, personél a swyddogion diogelwch tân mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf fod yn ddwyieithog. Roedd o leiaf un siaradwr Cymraeg ar gael drwy'r amser yn y ganolfan reoli yn y Rhyl. Roedd staff na allai siarad yr iaith yn mynychu gwersi Cymraeg ac roedd yn rhaid i weithwyr newydd fod yn ddwyieithog.
- *A oedd cyfraniad incwm yn cael ei roi at gyfalaf o ystyried y pwysau ar y gyllideb gyfalaf?* Nododd y Pwyllgor y byddai'r mwyafrif o'r offer newydd yn cael eu prynu trwy brydlesau gweithredu ond nad oedd yr eitem gyfalaf yn eiddo i'r Gwasanaeth ar ddiwedd y brydles. Roedd lefel y dyraniad cyfalaf o £480,000 ar gyfer 2000-2001 yn dal yn is na hanner y swm a ddyranwyd yn y gorffennol i Wasanaethau Tân Clwyd a Gwynedd. Roedd y gofynion cyfalaf o flwyddyn i flwyddyn rhwng £1.5 miliwn a £2 miliwn a chyda 50 eiddo ledled Gogledd Cymru byddai rhaglen gyfnewid am o leiaf un bob dwy flynedd yn cyfrif am y dyraniad i gyd. Byddai'r rhan fwyaf o'r gorsafoedd a gedwir yn costio rhwng £300,000 a £400,000 i'w hamnewid ac roedd y buddsoddiad yn rhy isel i ddenu buddsoddiad trwy'r Fenter Gyllid Breifat. Byddai'r buddsoddiad arfaethedig mewn gorsaf newydd yn Llanfairfechan yn cyfrif am ddyraniad cyfalaf blwyddyn i gyd bron iawn.
- *Beth oedd yn cael ei wneud i ymdrin â'r farn bod y Gwasanaeth yn methu o ran cyfleoedd cyfartal yn genedlaethol?* Nododd y Pwyllgor bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu, ac er mwyn ymdrin â'r broblem o ddenu digon o ddiffoddwyr tân wrth gefn mewn cymunedau llai, bod ymdrechion yn cael eu gwneud i recriwtio mwy o ferched a phobl o leiafrifoedd ethnig. Ar hyn o bryd, roedd y Gwasanaeth yn cyflogi pedair diffoddwraig tân llawn amser a deg diffoddwraig wrth gefn.
- *Sut allai'r Cynulliad gynorthwyo gyda'r broblem o recriwtio a chadw staff wrth gefn ac a oedd yr isafswm cyflog yn gymwys i staff wrth gefn?* Nododd y Pwyllgor y byddai pensiwn priodol a newidiadau i'r strwythur tâl i ganiatáu taliadau uwch fesul awr ar gyfer rhai oriau penodol i staff wrth gefn yn helpu i ymdrin â nifer o'r anawsterau presennol. Er hynny, nid oedd awdurdodau tân mwy Lloegr, fel y brigadau Metropolitan yn cyflogi llawer o staff wrth gefn, os o gwbl, ac felly nid oedd ganddynt lawer o ddiddordeb yn y problemau oedd yn ymwneud â hyn. Byddai dylanwad y Cynulliad ar y Swyddfa Gartref yn dderbyniol oherwydd hynny. Mae staff wrth gefn yn cael eu talu yn fwy na'r isafswm cyflog cenedlaethol am gael eu hyfforddi ac am

ddigwyddiadau. Roedd hawl staff wrth gefn i daliadau gwyliau blynyddol a phensiynau dan deddfwriaeth Ewropeaidd yn cael ei archwilio gan y llysoedd ar hyn o bryd.

- *Sut oedd Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru'n mynd i ddelio â'r cynnydd disgwyliedig mewn costau pensiwn yn ystod y pump i ddeng mlynedd nesaf?* Nododd y Pwyllgor bod cytundeb wedi'i wneud â'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru y gallai'r £400,000 cyntaf o unrhyw arian dros ben bob blwyddyn gael ei drosglwyddo i gronfa bensiwn wrth gefn. Roedd disgwyl y byddai digon o arian yn y gronfa erbyn hyn i fodloni'r gofynion pensiwn disgwyliedig tan 2010 pe bai'r tanwariant hwn ar gael tan o leiaf 2002/2003.
- *A fyddai cyflogi rhagor o ddiffoddwyr tân llawn amser yn datrys yr anhawster o recriwtio staff wrth gefn?* Nododd y Pwyllgor y byddai hwn yn opsiwn drud iawn oherwydd bod cost cynnal un orsaf wrth gefn am flwyddyn yr un faint â chyflogau tri diffoddwr tân llawn amser. Byddai'n well recriwtio staff wrth gefn yn lleol ac annog cyflogwyr i edrych ar ryddhau staff ar gyfer diffodd tân fel gwasanaeth i'r gymuned.
- *Mynegwyd pryder ynglþn â'r datganiad y gallai rhwng 6 a 12 gorsaf fod heb ddigon o staff i ddarparu gwasanaeth ar rai adegau. Beth oedd yr amser ymateb hiraf o ystyried y problemau hyn?* Nododd y Pwyllgor bod Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru'n cwrdd â 98% o alwadau o fewn yr amseroedd ymateb gofynnol. Pan nad oeddent wedi cwrdd â'r gofynion, dim ond o tua munud neu ddau oedd hynny. Er hynny, bu oedi o 45 munud mewn un achos diweddar lle'r oedd car ar dân ac roedd camau'n cael eu cymryd i sicrhau na fyddai hyn yn digwydd eto. Pwysleiswyd nad oedd gorsafoedd ar gael ar y cyfan oherwydd nad oedd digon o staff ar gael yn ystod y dydd o ddydd Llun i ddydd Gwener oherwydd y newid ym mhatrymau gweithio pobl, a oedd yn golygu nad oeddent yn byw a gweithio yn y gymuned leol bellach. Roedd yn anodd recriwtio personél wrth gefn oherwydd hyn.
- *Roedd peryglon tân mewn swyddfeydd a ffatrïoedd wedi'u gostwng yn sylweddol. Nid oedd tanau mewn tai wedi gostwng i'r un graddau ac yn aml roeddynt yn waeth oherwydd methiant larymau mwg sy'n cael eu gyrru gan fatri. Sut ellid ymdrin â'r broblem hon ?* Nododd y Pwyllgor bod pobl yn cael eu hannog i osod datguddwyr mwg trwy'r rhaglen Diogelwch Tân Cymuned. Gofynnwyd i awdurdodau lleol a chymdeithasau tai ddefnyddio systemau larwm gwifrau caled lle'n bosibl, oherwydd mai un o'r prif broblemau oedd cynnal a chadw datguddwyr mwg ac ailosod batris oedd wedi gorffen. Roedd ymdrechion yn cael eu gwneud i ehangu'r defnydd o systemau gwifrau caled i gartrefi preifat, ond roedd yn anodd cyflawni hyn oherwydd eu bod yn llawer drytach na larymau mwg annibynnol.

Dywedodd Huw Vaughan Thomas, Clerc Awdurdod Tân Gogledd Cymru, bod cyllid ar gyfer y gwasanaeth tân yn cael ei benderfynu'n genedlaethol ac nad oedd llawer o ryddid i weithredu'n lleol. Roedd cyllido awdurdodau tân yn fater y byddai'n fuddiol i'r Cynulliad ei drafod.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Gwasanaeth Tân am y cyflwyniad cynhwysfawr a dywedodd mai'r brif neges i'r Cynulliad oedd pwysigrwydd diffoddwyr tân wrth gefn i Wasanaeth Tân Gogledd Cymru a'r anawsterau recriwtio presennol.

**Eitem 2: Cyflwyniad gan awdurdodau lleol Gogledd Cymru gyda thrafodaeth yn dilyn**

Rhoddodd Alun Ffred Jones, Arweinydd Cyngor Gwynedd, gyflwyniad ar y strwythurau gwleidyddol newydd ar gyfer llywodraeth leol. Y themâu allweddol a godwyd oedd yr angen am hyblygrwydd, fel bod modd dod o hyd i atebion lleol, yr angen am rôl ystyrlon i gynghorwyr heb fod mewn swyddi gweithredol a'r diffyg rhyddid i awdurdodau lleol o ran gwariant.

Rhoddodd Phillip McGreevey, Prif Weithredwr Cyngor Bwrdeistref Sirol Fflint, gyflwyniad ar werth gorau. Roedd awdurdodau lleol yng Nghymru wedi manteisio ar egwyddorion gwerth gorau ac yn fformiwleiddio'u hymateb i arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol ar weithredu ar hyn o bryd. Ar ôl cytuno ar y canllawiau cyffredinol ar gyfer gwerth gorau, y cam nesaf fyddai datblygu dialog rhwng llywodraeth leol a'r Cynulliad ynglþn â'r her y mae gwerth gorau'n ei gynnig.

Agorodd y Cadeirydd y sesiwn drafod ac fe wnaed y pwyntiau canlynol:

- Roedd tensiwn posibl rhwng yr egwyddor gwerth gorau y dylai llywodraeth leol wrando ac ymateb i farn ei breswylwyr, a manyleb y Cynulliad am flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol;
- Dylai'r Cynulliad osgoi cymryd gormod o ran mewn penderfyniadau am y modd y mae awdurdodau lleol yn gwario eu cyllidebau;
- Gallai'r Cyngor Partneriaeth gael rôl wrth ddiffinio ffiniau a chyfrifoldebau os oedd anghytuno ynglþn â blaenoriaethau canolog a lleol;
- Mynegwyd pryder am amlder archwiliadau ac arolygiaeth sy'n ailgyfeirio cronfeydd o ddarpariaeth gwasanaeth rheng flaen ac sy'n gallu cyfyngu ar gyflwyno atebion lleol i broblemau lleol;
- Er hynny, roedd angen rhoi sicrwydd i'r cyhoedd bod llywodraeth leol yn cwrdd â safonau gwerth am arian a phriodoldeb. Felly, roedd angen cydbwysedd.

Wrth grynhoi'r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd mai her y Cynulliad oedd gwella ansawdd bywydau pobl Cymru. Roedd yn rhaid i'r Cynulliad a llywodraeth leol weithio gyda'i gilydd a sefydlu'r cydbwysedd cywir rhwng eu swyddogaethau. Roedd yn ddyddiau cynnar i'r Cynulliad o hyd a dylid rhoi cyfle iddo ddangos beth all ei gyflawni. Byddai negeseuon llywodraeth leol yn y cyfarfod yn cael eu cyfleu i'r Cynulliad. Diolchodd y Cadeirydd i'r awdurdodau lleol am eu cyflwyniadau ac am y drafodaeth agored a ddilynodd.

**Eitem 3: Adroddiad gan y grðp anffurfiol ar gysylltiadau rheilffordd gogledd/de**

Dywedodd John Marek bod y grðp wedi cyfarfod yn anffurfiol ar sawl achlysur ac wedi cadw llygaid ar ddatblygiadau. Croesawodd y penderfyniad i wneud darpariaeth yn y gyllideb ar gyfer gwella cysylltiadau rheilffordd rhwng y gogledd a'r de. Dywedodd ei fod wedi ysgrifennu at y Prif Ysgrifennydd yn cynnig y dylai'r grðp gyfarfod â'r grðp BABTIES a gweld ei gylchoedd gwaith ond nad oedd wedi derbyn ymateb eto. Cynigiodd y dylai'r grðp barhau i gyfarfod yn anffurfiol ond y dylid darparu cymorth ysgrifenyddol. Dywedodd bod y grðp yn ystyried bod uwchraddio a thrydaneiddio llinell gogledd Cymru trwy ddefnyddio arian amcan 1 yn hanfodol.

Gwnaethpwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

- nid oedd gan y Cynulliad lawer o reolaeth dros bolisi cludiant yng Nghymru a dylid ceisio cael rhagor. Er enghraifft gallai'r Cynulliad enwebu aelod i'r Awdurdod Rheilffordd Strategol newydd. Byddai cerbydau newydd ar gael yn fuan ar linell gogledd Cymru ac nid oedd yr angen am drydaneiddio'n glir;
- roedd trafodaeth fer ar gysylltiadau rheilffordd gogledd/de am gael ei chynnal mewn sesiwn Llawn yr wythnos ganlynol. Roedd cysylltiadau'n bwysig i'r economi ac undod y genedl. Roedd angen sicrhau na fyddai unrhyw fuddsoddiad amcan 1 ar gyfer gwella llinell gogledd Cymru'n mynd i boced Railtrack yn y pen draw;
- dylai unrhyw benderfyniadau am fuddsoddi yn llinell gogledd Cymru ddisgwyl tan i ganlyniadau'r astudiaeth ar gysylltiadau cludiant yng Nghymru fod ar gael;
- roedd angen i'r Pwyllgor gyfleu neges gadarn bod angen i Lywodraeth Leol a'r Pwyllgor Amgylchedd archwilio'r mater o gysylltiadau gogledd/de a buddsoddi yn llinell gogledd Cymru.

Wrth grynhoi'r drafodaeth dywedodd y Cadeirydd bod y Pwyllgor wedi cytuno:

- y byddai'r grðp ar gyfer cysylltiadau gogledd/de yn parhau ar ffurf anffurfiol gyda chymorth ysgrifenyddol ar brydiau; a
- byddai llythyr yn cael ei anfon at Gadeirydd Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Amgylchedd, gyda chopi at Ysgrifennydd y Cynulliad ar gyfer Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd, yn gofyn i'r Pwyllgor archwilio uwchraddio llinell gogledd Cymru a chysylltiadau rheilffordd gogledd/de.

*Pwynt Gweithredu*

Llythyr i'w ddrafftio i'r Cadeirydd ei anfon at Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a'r Amgylchedd **- Ysgrifenyddiaeth**

**Eitem 4: Sioe deithiol Datblygiad Cynaliadwy**

Dywedodd y Cadeirydd bod Cadeiryddion Pwyllgorau Rhanbarthol wedi cytuno i gynnal sioeau teithiol fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar Gynllun Datblygiad Cynaliadwy'r Cynulliad. Yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor, er mwyn cynorthwyo'r broses ymgynghori, y dyddiad ar gyfer cyfarfod Pwyllgor Gogledd Cymru fyddai 11 Chwefror 2000.

Nod y sioe deithiol fyddai darparu cyfle i bobl na fyddent yn ymateb fel arfer i ymarfer ymgynghori i gyflwyno'u syniadau. Yn ogystal â sesiwn siarad agored ar gyfer y cyhoedd, byddai'r cyfarfod yn rhoi amser i sefydliadau lleol a chyrff datblygiad cynaliadwy wneud cyflwyniadau byr.

Cytunodd y Pwyllgor ar y cynnig a dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn dosbarthu papur i Aelodau cyn y Nadolig yn rhoi rhagor o fanylion.

**Eitem 5: Cofnodion cyfarfod 8 Hydref**

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 8 Hydref 1999.

**Ysgrifenyddiaeth** **Rhagfyr 1999**